O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2019 Rhif 1196 (Cy. 213)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019

Gwnaed	*14 Awst 2019*
Yn dod i rym	*16 Awst 2019*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A494, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, ar ôl rhoi rhybudd cyhoeddus o'u bwriad i wneud hynny ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Cyfnewidfa Parc Dewi Sant i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 2019 a daw i rym ar 16 Awst 2019.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A494 Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Awst 2019

Richard Morgan
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 90 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Dewi Sant hyd at bwynt 20 metr i'r dwyrain o ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Y darnau o ffordd ymuno tua'r dwyrain a ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn

o bwynt 170 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darn o ffordd ymadael tua'r gorllewin y gefnffordd wrth drosbont Cyfnewidfa Plough Lane sy'n ymestyn o bwynt 180 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin a ffordd ymuno tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Queensferry sy'n ymestyn o bwynt 93 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt y gyfnewidfa honno am weddill y darn hwnnw.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Sealand Road.

Y darnau o ffordd ymadael tua'r dwyrain a ffordd ymuno tua'r gorllewin y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.